


Roedd **Jâms** y **jiráff** yn dal am ei oedran.



Roedd **Jâms** yn bedair blwydd oed ac yn barod roedd e'n dalach na'i ffrindiau i gyd, gan gynnwys **Hari'r hipo**.

Ond, roedd yna un broblem.

Roedd **Jâms** fel arfer yn rhy dal i fynd i wneud pethau gyda'i ffrindiau.

Rhy dal i chwarae cuddio gyda **Nansi'r neidr**.

Rhy dal i reidio beic gyda **Cai'r crocodeil**.

Rhy dal i chwarae gwisg ffansi gyda **Loti'r lindys**.

A rhy dal i fynd ar y ffrâm ddringo yn y parc gyda **Mog** y **Mwnci**.



Yn aml iawn byddai **Jâms** yn teimlo'n unig oherwydd ei fod yn rhy dal i wneud y pethau hynny gyda'i ffrindiau.

Ond, roedd fory'n ddiwrnod pwysig.

Fory, roedd **Jâms** yn dechrau yn y feithrinfa ac roedd e'n edrych ymlaen ato'n fawr.

Roedd **Jâms** gydag **esgidiau** newydd, **bag ysgol** newydd a **dillad** newydd i'w gwisgo i'r feithrinfa. Wrth adael y tŷ y bore hwnnw i fynd i'r feithrinfa am y tro cyntaf, roedd **Jâms** yn edrych yn smart iawn.

Aeth **Jâms** a'i dad ar eu *roller blades* i'r feithrinfa y bore hwnnw.

Roedd **Jâms** yn hoff iawn o'i **ddillad** newydd am eu bod yr un lliw â'i *roller blades*.



Pan gyrhaeddodd **Jâms** y **jiráff** y feithrinfa roedd yna un broblem fawr. Roedd e'n rhy dal i fynd trwy'r drws.

O, na!

Triodd **Jâms** bob ffordd bosib er mwyn mynd i mewn i'r caban ond er yr holl bwffian a'r holl ffwdan doedd **Jâms** methu gwneud ei hun yn ddigon bach i ymuno â phawb arall yn y feithrinfa.

Yn lle, roedd **Jâms** angen sefyll tu allan i'r caban gan roi ei ben trwy ffenest y dosbarth.

Trwy gydol y diwrnod roedd **Jâms** yn teimlo'n unig iawn.



Sylwodd
Hari'r hipo,
Mog y
Mwnci,
Nansi'r
neidr,
Cai'r
crocodeil a
Loti'r lindys
 ar
 anhapusrwydd
Jâms a
 phenderfynodd
 y pump i
 wneud
 rhywbeth yn ei
 gylch.

Y penwythnos hwnnw, roedd pawb yn rhy brysur i chwarae gyda **Jâms** ac unwaith eto roedd e'n teimlo'n drist. Roedd e wedi cael llond bol ar fod yn dal ac yn gobeithio'n fwy na dim y bysai gallu bod fel pawb arall.

Ond, yn ddiarwybod i **Jâms** y **jirâff**, roedd ei ffrindiau'n gweithio'n galed er mwyn gwneud yn siŵr y byddai **Jâms** yn gallu ffitio i mewn i'r feithrinfa y tro nesaf.

Y tro nesaf i **Jâms** fynd ar ei *roller blades* gyda'i dad i'r feithrinfa roedd un peth mawr wedi newid.



Roedd **Jâms** methu credu'í lygaid.

Roedd y drws wedi mynd.

Yn lle roedd gwagle mawr i **Jâms** gerdded trwy.



Tro yma, doedd dim angen i **Jâms** sefyll tu allan i'r caban gan roi ei ben trwy ffenest y dosbarth! Nac ychwaith bwrw'í ben yn erbyn y to!

Y diwrnod hwnnw ...

chwaraeodd **Jâms** ar y ffrâm ddringo gyda **Mog** y **Mwnci**,

chwaraeodd cuddio gyda **Nansi'r neidr**,

reidiodd ei feic gyda **Cai'r crocodeil** a ...

chwaraeodd gwisg ffansi gyda **Loti'r lindys**.



O'r diwrnod hwnnw ymlaen, ni fyddai **Jâms** byth yn mynd yn drist am fod yn dal, ac roedd e'n ymfalchïo yn y ffaith ei fod yn wahanol i bawb arall.

Gan Rhiannon Lloyd Williams a Sioned Medi Evans